

Cyngor Sir Ynys Môn	
Pwyllgor:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	22 Mawrth 2023
Teitl yr adroddiad:	Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023 i 2024
Adroddiad gan:	Pennaeth Democratiaeth
Pwrpas yr Adroddiad:	Rhoi gwybod am benderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2023 i 2024

1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif Gyngorau – cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Cynhaliodd y Panel ymgynghoriad ar ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 rhwng 6 Hydref ac 1 Rhagfyr 2022. Fe gyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2022. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol terfynol ar 27 Chwefror 2023.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y Panel ac felly nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r penderfyniadau terfynol, heblaw am gryfhau geiriad mewn rhai mannau, i egluro ansicrwydd.

Yn ogystal, amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ambell faes y bydd y Panel yn eu hystyried yn eu blaen raglen waith ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd y blaen raglen waith yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Panel ddiwedd mis Mawrth.

Bydd Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024 yn weithredol o Ebrill 2023.

2.0 Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2023/24

2.1 Lefelau Taliadau 2023/24

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig o 2022/23 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 24 Mai 2022) ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cyflogau a fydd yn daladwy o Ebrill 2023:

Rhestr Taliadau i Aelodau	2022-2023	2023-2024
Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod	£16,800	£17,600
Band 1:		
Arweinydd	£53,550	£56,100
Dirprwy Arweinydd	£37,485	£39,270
Band 2:		
Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (x 7)	£32,130	£33,660
Band 3:		
Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	£25,593	£26,400
Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	£25,593	£26,400
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	£25,593	£26,400
Cadeirydd y Cyngor	£25,593	£26,400
Band 4:		
Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf	£25,593	£26,400
Band 5:		
Is-Gadeirydd y Cyngor	£20,540	£21,340

2.2 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le yn 2023/24, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Cyngor llawn gadarnhau nifer yr uwch gyflogau a fydd yn daladwy yn 2023/24 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023.

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig. Mae pob penderfyniad arall o 2022 i 2023 felly yn dal i sefyll a dylid eu gweithredu yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- Teithio a chynhaliaeth
- Gofal a Chymorth Personol
- Absenoldeb salwch
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol
- Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- Aelodau Cyfetholedig

3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi:

- y penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 i 2024 (Chwefror 2023)
- bwriad y Panel i gyhoeddi blaen raglen waith ar gyfer y flwyddyn hon ddiwedd mis Mawrth 2023

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2023 i 2024 (Chwefror 2023):

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)